

Gwerthuso llwyddiant eich grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid i oedolion

Efallai y gofynnir i chi werthuso llwyddiant y grŵp er mwyn sicrhau cyllid yn y dyfodol.

Dyma rai awgrymiadau y byddwch efallai eisiau eu hystyried:

1. Monitro'r niferoedd sy'n mynychu'r grŵp



- Cadwch gofnod o nifer yr aelodau sy'n mynychu'r grŵp.
- Ai'r un bobl sy'n mynychu'r grŵp bob tro?
- Ydych chi wedi gofyn am adborth gan bobl nad ydynt yn mynychu'r grŵp mwyach?

2. A yw'r grŵp wedi datblygu neu ennill unrhyw sgiliau newydd?



Bydd hyn yn dibynnu ar natur y grŵp, ond hefyd ystyriwch a yw'r aelodau wedi profi:

- cynnydd mewn cyfleoedd a gweithgareddau cymdeithasol
- gwell hyder cymdeithasol.
- ystod ehangach o brofiadau cymdeithasol.

3. Cael adborth gan y grŵp i werthuso mwynhad ac awyrgylch



Gofynnwch i'r aelodau a fyddent yn hapus i wneud y canlynol:

- llenwi holiaduron hunan-arfarnu
- rhoi adborth ar lafar
- bod mewn ffotograffau.